



# yr Athro

## CYNHADLEDD AMGEN UCAC

19 Ebrill 2021  
6-7 o'r gloch

**Covid a thu hwnt  
Pwy sy'n poeni am eich Lles?**

**Dr Hanna Hopwood Griffiths**

Cyflwynydd Gwneud Bywyd yn Haws, BBC Radio Cymru a  
Darlithydd y Gymraeg yn Rhagoriaeth, Prifysgol Cymru y  
Drindod Dewi Sant



**Aeron Rees**

Pennaeth Cwricwlwm a Lles, Sir Gaerfyrddin

Bydd **Angharad Jones** a **Sion Walker** cyd-swyddogion Aeron Rees yn ymuno gyda ni yn y seailwn.

20 Ebrill 2021  
6-7 o'r gloch

**Dysgu yn ddigidol  
Beth ydym wedi dysgu ers covid 19?**



**Dilwyn Owen**

Pennaeth TGCH, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

**Peter Thomas**

Ymgysylltiad Rhanddeiliaid Hwb Uwch

21 Ebrill 2021  
6-7 o'r gloch

**Ai dyma'r amser i gyflwyno'r  
cwricwlwm newydd i Gymru?**

Dewch i ystyried, trafod a dadlau **ai dyma'r amser i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru?**

- **Dr Llinos Jones**, Ysgol Bro Myrddin yn cyflwyno'r ddatl o blaid oedi (5 munud)
- **Ryan Chappell**, Ysgol Gynradd Gymraeg Pen-y-Groes yn cyflwyno'r ddatl o blaid peidio oedi (5 munud)
- Trafodaeth agored

Cliciwch yma am ragor o fanylion ac i gofrestru - am ddim! <https://mailchi.mp/38e5d03f7892/cynhadledd-amgen-ucac-2021>

**t3** Llywydd newydd **t4** Athrawon dan hyfforddiant **t5** Trefniadau asesu'r haf

# CYNHADLEDD AMGEN UCAC

## HAMPER O NWDYDDAU I'W ENNILL!

Bydd enwau pob aelod sy'n mynychu un o sesiynau Cynhadledd Amgen UCAC eleni (19-21 Ebrill) yn cael eu rhoi yn yr het i gael cyfle i ennill.

Felly cofrestrwch nawr i fynychu un neu fwy o sesiynau'r Gynhadledd – ac efallai mai chi fydd yr aelod lwcus!

**CRWST**

TREGROES  
*Waffles*



DARLUNIO

*heleddowen*

ILLUSTRATION

*y* **olfa**



**bodlon**



# Covid ac Addysg: y diweddaraf

Mae'r heriau wedi bod yn enfawr wrth i ni geisio sicrhau gweithle mor ddiogel â phosib i staff a dysgwyr.

Mae'n siom aruthrol nad yw ein galwad, ar y cyd ag undebau eraill, wedi arwain at frechlyn i holl staff ysgol.

Wrth i ni weld ysgolion yn ail agor mae llawer o waith eto i'w wneud gan gynnwys ystyriaethau pellach o ran lles ac iechyd meddwl staff.

Ymysg y trafodaethau anodd mae'r ystyriaeth o ymbellhau cymdeithasol a symud o un swigen i'r llall. Mae cwestiynau mawr yn dechrau codi yn ogystal ynghylch y trefniadau asesu cymwysterau ar gyfer tymor yr haf mewn ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach (gweler tudalen 5).

Mae UCAC yn parhau i drafod pob agwedd o'r trefniadau addysg ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gyda swyddogion yn cyfarfod yn gyson gyda Llywodraeth Cymru, y consortia, awdurdodau lleol, colegau addysg bellach, ysgolion ac eraill.

Mae'r Ysgrifennydd Cyffredinol wedi gweithredu fel cydlynnydd yr undebau sy'n cynrychioli staff ysgol trwy gydol cyfnod y pandemig ac hefyd wedi bod yn is-gadeirydd cyfres wythnosol o gyfarfodydd partneriaeth gymdeithasol rhwng swyddogion a gweinidogion Llywodraeth Cymru, arweinwyr awdurdodau lleol a chynrychiolwyr ymysg Cyfarwyddwyr Addysg yn ogystal â'r Prif Weinidog ei hun. Yn wir, ar un cyfnod roedd cyfarfodydd dyddiol gyda'r angen i ymateb i ddogfennau dros nos.

Mae UCAC yn hynod o ddiolchgar i gyd-aelodau am eu cyngor a'u harweiniad gan gynnwys mynychu cyfarfodydd ac yn ddiolchgar hefyd am fewnbwn y Cyngor Cenedlaethol a'r Tîm Llywyddol.

Diolch hefyd am yr ymholiadau beunyddiol ynghyd â'r sylwadau sydd wedi'u bwydo i'r drafodaeth mewn negeseuon e-bost ac yn y cyfarfodydd torfol yr ydym wedi eu cynnal ar Teams a Zoom.

**Cofiwch fod UCAC yma i chi bob amser i drafod unrhyw fater ac i'ch cefnogi bob amser.**

## Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Julia James

Is-Llywydd: Eirlys Edwards

Ysgrifennydd Cyffredinol: Dilwyn Roberts-Young

Cydlynnydd Yr Athro: Rebecca Williams

**Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.**

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: [ucac@ucac.cymru](mailto:ucac@ucac.cymru)

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

# Llywydd Cenedlaethol UCAC

**Mae'n bleser cael cyhoeddi mai Llywydd Cenedlaethol nesaf UCAC, o fis Medi ymlaen, fydd Nia Goode. I'r rhai ohonoch chi nad ydych yn ei hadnabod yn barod, dyma gyflwyniad:**

Ganwyd Nia yn Ysbyty Llanelwy, yn ferch i Reuben Roberts o Ben Llŷn ac Aelwen o Ddyffryn Nantlle. Mae ganddi ddau frawd iau, Gerallt ac Emrys. Yn bedair oed, symudodd y teulu o Lanefydd Sir Ddinbych i Wyddelwern, ger Corwen, ble y mynychodd Nia ysgol gynradd y pentref. Aeth ymlaen i Ysgol y Berwyn cyn graddio mewn Hanes o Brifysgol Cymru, Aberystwyth. Yn dilyn cwrs ymarfer dysgu, cafodd swydd yn arwain yr adran Hanes yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, Pont-y-pŵl.



Nia Goode

Dros y blynyddoedd mae Nia wedi cyfrannu at BBC Bitesize, wedi bod yn Fentor Pwnc Hanes gyda UWIC ac yn Fentor Allanol. Mae wedi bod yn aelod o sawl panel i'r Llywodraeth megis Grŵp Llywio Cwricwlwm 2008, Datblygu Uwch Sgiliau Llythrennedd ar Draws y Cwricwlwm, y Cylchgrawn Hanes, a Nia oedd y Dirprwy Brif Achredwr CA3 Hanes. Mae'n arholwr allanol i CBAC a hi sydd y tu ôl i'r cyfrif Twitter, Hafan i Athrawon. Yn fwy diweddar mae wedi bod yn gweithio ar greu adnoddau Lefel A ar gyfer HWB.

Mae wedi bod yn aelod o UCAC ers dechrau ei gyrfa ac yn Ysgrifennydd Sirol UCAC Mynwy, Torfaen a Chasnewydd.

Mae'n briod â Michael, ac mae ganddynt ddau o blant, Dyfan a Gwenno. Ers saith mlynedd, mae'n byw yn y Barri. Ymhlith diddordebau Nia mae darllen, coginio, rhedeg a gweithgareddau awyr agored ar y traeth gyda chlwb achub bywyd y Rhŵs.

**Mae'n braf cael cyhoeddi yn ogystal mai'r Is-lywydd ar gyfer 2021-22 yw Heulwen Howells, Ceredigion.**

**Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy!**



# UCAC yn mynegi pryder difrifol am drefniadau asesu'r haf



Mae UCAC wedi anfon llythyron at y Gweinidog Addysg ac at Gomisiynydd Plant Cymru yn mynegi pryderon difrifol am drefniadau asesu haf 2021.

Er bod UCAC wedi croesawu dileu arholiadau, mae datblygiadau dros yr wythnosau diwethaf wedi arwain at ofid am ba mor gymesur mae'r trefniadau o ran y baich ar ddisgyblion ac ar ysgolion.

## Dileu'r cap ar bensiwn athrawon

Buodd bwriad gan Lywodraeth San Steffan i osod nenfwd o £95,000 ar daliadau pensiwn a thaliadau eraill i weithwyr yn y sector gyhoeddus.

Byddai hyn wedi effeithio ar athrawon ac arweinwyr fyddai'n derbyn taliadau diswyddo a mynediad at bensiwn ar yr un pryd.

Erbyn hyn, daeth y newyddion da bod Llywodraeth San Steffan wedi newid eu meddyliau, ac ni fydd y nenfwd yma'n effeithio ar daliadau o'r fath.

## Zoom!

Mae'r cyfnod diwethaf wedi bod yn un heriol mewn gymaint o ffyrdd. Ond mae'n gyfnod sydd wedi cynnig cyfleoedd a dulliau newydd o weithio, cyfathrebu a chymdeithasu.

Ers blwyddyn bellach, mae holl gyfarfodydd UCAC wedi digwydd arlein – a hynny wedi helpu i leihau ôl troed carbon yr undeb, ac oriau ar hewlydd troellog i aelodau a swyddogion.

Mantais arall i'r gyfarfodydd arlein yw bod sawl un wedi gallu mynychu fyddai wedi gorfod ymddiheuro fel arall – felly rydyn ni wedi cael presenoldeb llawer gwell yn ogystal.

Ddechrau mis Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod Zoom ar gyfer aelodau sy'n gweithio gyda'r Cyfnod Sylfaen, gan fod paratodau ar droed ar gyfer dychweliad y plant ieuengaf i'r ysgol. Roedd dros 100 ohonoch yn bresennol yn y cyfarfod – a chafwyd trafodaeth fywiog ynghylch y canllawiau, y trefniadau, y pryderon a'r hyn fyddai UCAC yn gallu ei wneud ar eich rhan.

Cafwyd cyfarfodydd pellach ar gyfer y sector cynradd ac uwchradd ddechrau mis Mawrth cyn yr ail-agor ehangach.

Felly dyma edrych ymlaen at gyfnod newydd o ymgysylltu'n fwy uniongyrchol ac aml gydag aelodau. Os oes gennych chi awgrymiadau ynghylch sut i wneud yn fawr o'r cyfleoedd newydd i wella gwasanaeth yr undeb, cofiwch gysylltu.



# Bil Cwricwlwm ac Aseu Cymru

*Bil Cwricwlwm ac Aseu (Cymru)*

DOGFEINNAU SY'N MYND GYDA'R BIL  
Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.

## Bil Cwricwlwm ac Aseu (Cymru)

[FEL Y'T PASIWDYD]

CYNNWYS

RHAN 1

CYSYNIADAU SYLFAENOL A DOGFENNAU ALLWEDDOL

1	Cyflwyniad
2	Y pedwar diben
3	Y meysydd dysgu a phrofiad
4	Y sgiliau trawsgricwlaidd mandadol
5	Pŵer i ddiwygio adrannau 3 a 4
6	Cod yr Hyn sy'n Bwysig
7	Y Cod Cymnydd
8	Y Cod ACRH

RHAN 2

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS GYNHELIR

PENNOD 1

CYNLLUNIO A MABWYSIADU CWRICWLWM

*Cyffredinol*

9	Cyflwyniad a dehongli <i>Ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir</i>
10	Cynllunio cwricwlwm
11	Mabwysiadu cwricwlwm
12	Adolygu a diwygio cwricwlwm <i>Addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir</i>
13	Dyletswydd Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cwricwlwm
14	Adolygu a diwygio cwricwlwm a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru
15	Mabwysiadu cwricwlwm
16	Adolygu a diwygio cwricwlwm <i>Darpariaeth atodol</i>
17	Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch mabwysiadu a diwygio cwricwlwm
18	Pŵer i wneud darpariaeth atodol ynghylch crynodebau cwricwlwm

GB/23/20

Ar 9 Mawrth, cytunodd Senedd Cymru ar Fil Cwricwlwm ac Aseu (Cymru) ac mae disgwyl iddo ddod yn Ddeddf ym mis Ebrill.

Mae'r Bil yn crisialu rhai o brif elfennau ac egwyddorion y newidiadau chwyldroadol sy'n dod i'n system addysg.

Cafodd UCAC gryn lwyddiant, ar y cyd â mudiadau eraill, wrth wrthwynebu cymalau niweidiol yn y Bil drafft oedd yn bygwth tanseilio addysg drochi yn y Cyfnod Sylfaen trwy wneud y Saesneg yn orfodol i bawb, a chreu rheidrwydd ar ysgolion cyfrwng Cymraeg i optio allan.

Roedd y cymalau trychinebus yn arwydd, eto fyth, o'r diffyg dealltwriaeth o'r sector cyfrwng Cymraeg o fewn Adran Addysg Llywodraeth Cymru - ffenomen rydym yn hen gyfarwydd â hi ond nad yw byth yn peidio ag achosi siom, rhwystredigaeth a dichter.

Ond trwy gydweithio gyda mudiadau fel RhAG, CYDAG, Mudiad Meithrin, Cymdeithas yr Iaith a Dyfodol i'r Iaith, llwyddwyd i sicrhau gwelliannau sy'n caniatáu i addysg drochi barhau'n ddi-rwystr.

Os oes gennych chi deimladau cryf ynghylch amserlen cyflwyno'r cwricwlwm newydd - sticio gyda'r amserlen bresennol, neu ohirio? - cofiwch ymuno â'r sesiwn yn ein Cynhadledd Amgen fydd yn trafod yr union bwnc. 6-7 o'r gloch, dydd Mercher 21 Ebrill - manylion cofrestru ar dudalen 1.

## Cyflogau ac amodau gwaith athrawon

Mae UCAC wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i **Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru** unwaith eto eleni.

Rydym wedi:

- pwysleisio pwysigrwydd codiad cyflog sy'n uwch na chwyddiant, ac sy'n gyson i bob rhan o'r proffesiwn - yn wahanol i setliad llynedd pan roddwyd llai o godiad cyflog i arweinwyr ysgol
- ail-bwysleisio sicrhau tâl ac amodau gwaith statudol i athrawon cyflenwi, i'w amddiffyn rhag grym y farchnad dan drefn yr asiantaethau
- galw am raddfeydd cenedlaethol pendant o fewn y lwfansau CAD er mwyn sicrhau mwy o gysondeb
- datgan y gallem edrych yn ffafriol ar y syniad o ehangu'r Brif Raddfa Gyflog, hynny yw, yn cwmpasu'r Raddfa Gyflog Uwch mewn un raddfa ddi-dor, er mwyn cynnig llwybr cyflog cliriach

Mae rhai materion dan drafodaeth gan y Corff eleni o ganlyniad i awgrymiadau penodol gan UCAC, sef:

- tâl Arweinyddiaeth penaethiaid sy'n atebol am fwy nag un ysgol
- y Lwfans AAA, yng ngoleuni'r swyddogaethau statudol sydd newydd eu diffinio yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
  - rydym yn dadlau dros gynnwys Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, gan gynnwys darpariaethau statudol ar gyfer tâl ac amodau gwaith, gan gynnwys amser digyswllt priodol

Cawsom gyfle yn ogystal i godi rhai materion ychwanegol sef:

- llwyth gwaith gormodol, a'r angen i fynd i'r afael â biwrocratiaeth ddianghenraid, a sicrhau amser digyswllt digonol, ar gyfer yr holl gyfrifoldebau
- lles athrawon ac arweinwyr
- yr angen am gefnogaeth ddigonol a dibynadwy i gyrrf llywodraethu

Rydym yn disgwyl adroddiad y Corff yn ystod tymor yr haf, gyda phenderfyniadau ar sail yr argymhellion gan y Gweinidog (pwy bynnag fydd honno neu hwnnw erbyn hynny) i ddilyn.

Gellir darllen tystiolaeth ysgrifenedig UCAC fan hyn:

[https://www.ucac.cymru/images/Ymgynghoriadau/21-01\\_CACAC.pdf](https://www.ucac.cymru/images/Ymgynghoriadau/21-01_CACAC.pdf)

# Cynhadledd Flynyddol UCAC 2021

Oherwydd sefyllfa'r pandemig, nid oes modd cynnal Cynhadledd Flynyddol UCAC yn y ffordd arferol eleni.

Dyna'r rheswm dros gynnal y Gynhadledd Amgen - i bob aelod gael ymuno yn y trafodaethau ar-lein dros dair noswaith o 19-21 Ebrill (manylion ar dudalen 1).

Ond nid oeddem am gollir cyfle i aelodau gael gosod yr agenda ar gyfer gwaith yr undeb dros y flwyddyn i ddod, felly mae'r Cymdeithasau Sir, yr Adrannau a'r Cyngor Cenedlaethol wedi bod yn gwneud cynigion yn y ffordd arferol dros y misoedd diwethaf.

Fel y byddech yn disgwyl, mae llawer o'r rhain yn ymwneud â gwahanol agweddau o'r pandemig, ond maent yn llawer ehangach na hynny hefyd, er enghraifft:

- blaenoriaeth i'r gweithlu addysg ar gyfer brechiadau
- buddsoddiad hirdymor mewn dysgu digidol
- pryder dros asesiadau'r haf
- rôl arholiadau yn y tymor hir
- gohirio'r cyflwyno'r cwricwlwm newydd - ai peidio

- lle Hanes Cymru yn y cwricwlwm
- rôl Estyn
- strwythur y flwyddyn ysgol
- tal ac amodau gwaith teg i athrawon cyflenwi

...a llawer mwy!

Gaiff y rhain eu rhoi gerbron Cyfarfod Blynnyddol UCAC ar 15 Ebrill, ynghyd â materion eraill mae'n rhaid delio gyda nhw bob blwyddyn fel cymeradwyo'r cyfrifon, penodi archwilwyr ac ati.

Y bwriad yw y bydd y Cyfarfod Blynnyddol yn dirprwyo'r holl gynigion i'r Cyngor Cenedlaethol i'w penderfynu eleni, gan fod modd cynnal trafodaeth a phleidleisio arlein o fewn y grŵp hwn o'ch cyd-aelodau etholedig yn ddigon hwylus.

Mawr obeithiwn y bydd modd cynnal Cynhadledd Flynyddol wyneb-yn-wyneb gyda'r holl hwyl arferol yn 2022.



## Ffarwel

Rydym yn drist iawn i fod yn ffarwelio â Siân Williams, ein Cynorthwydd Swyddfa ers 2016 - ond yn ei llongyfarch yn dwymgalon iawn ar ei phenodiad i swydd gyda thîm gweithgar Aelod Seneddol Ceredigion, Ben Lake AS.

Bydd unrhyw aelod sydd wedi bod mewn Cynhadledd Flynyddol ers 2016 yn gyfarwydd â wyneb cyfeillgar Siân yn ein croesawu ni oll, yn ein corlannu ni i gyd er mwyn tynnu llun (tipyn o job) – ac yn bwysicach na dim, yn cadw trefn ar bwy sydd wedi archebu beth i'w fwyta gyda'r nos!

Mae Siân wedi bod yn allweddol o ran trefniadau ffeiriau myfyrwyr, presenoldeb UCAC yn yr eisteddfodau ac wrth drefnu buddiannau i aelodau.

Bydd colled fawr ar dy ôl Siân - a dymunwn bob llwyddiant, a phob hwyl i ti yn y swydd newydd.



Siân Williams